

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDY YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 31 MAI 2016 AM 7 O'R GLOCH.

PRESENNOL:

Cynghorydd Susan Conrad-Smith - Cadeirydd.

Cynghorwyr Alan Benson, Anwen McCann, Cyndy McDermott, Stephen McGee, Geoff McGinn, Eric Roberts, H. B Rowlands a Dafydd Rhys Thomas J.P.

Hefyd yn bresennol : Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes.

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr J. Abbott ac E. Gwynfor Williams.
2. **ETHOL CADEIRYDD 2016-2017**
Gyda'r Cynghorydd Eric Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd D. Rhys Thomas yn eilio fe etholwyd Cynghorydd C. L. McDermott yn gadeirydd.

Diolchodd y Cynghorydd Eric Roberts y Cadeirydd ymadawol am ei hymdrechion ar ran y Cyngor a dymunodd flwyddyn lwyddiannus i Cynghorydd C. L. McDermott. Arwyddodd hithau'r Datganiad Derbyn Swydd a symud i'r gadair.
3. **ETHOL IS- GADEIRYDD 2016-2017**
Gyda'r Cynghorydd Susan Conrad-Smith yn cynnig a'r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio fe etholwyd Cynghorydd Geoff McGinn yn Is-Gadeirydd. Arwyddodd yntau'r Datganiad Derbyn Swydd.
4. **ETHOL CYNRYCHIOLWYR :**
PENDERFYNWYD : Ethol fel a ganlyn:
 - 4.1 **Un Llais Cymru. (2)**
Cynghorwyr J. Abbott a A. D. McCann.
 - 4.2 **Pwyllgor Neuadd Bentref Bae Trearddur. (2)**
Cynghorwyr A. D. McCann ac Eric Roberts.
 - 4.3 **Pwyllgor Elusennau Hugh Hughes. (1)**
Cynghorydd Eric Roberts
 - 4.4 **Llywodraethwr Ysgol Rhoscolyn (1)**
Cynghorydd S McGee
 - 4.5 **Pwyllgor Cyllid. (5)**
Cynghorwyr J. Abbott, Alan Benson, Mrs A. D. McCann, Eric Roberts ac E. Gwynfor Williams.
 - 4.6 **Cyd Bwyllgor y Fynwent. (3)**
Cynghorwyr S. Conrad-Smith, C. L. McDermott a Dafydd Rhys Thomas.

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 31 MAI 2016 AM 7 O'R GLOCH.

4.7 Safle Chwarae Plant. (5)

Cynghorwyr A. D. McCann, C. L. McDermott, S. McGee, H. B. Rowlands a Dafydd Rhys Thomas.

4.8 Fforwm Cynllunio. (2)

Cynghorwyr G. D. McGinn and Eric Roberts.

4.9 Fforwm Cyswilt Cynghorau Tref a Chymuned.

Cynghorwyr Alan Benson and H.B.Rowlands

5. DATGANIAD O DDIDDORDEB:

Cyng. S. Conrad Smith, A. D McCann a Eric Roberts yn datgan diddordeb mewn ceisiadau cynllunio 16.1 a 16.8 .

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION

7.1 Darparu biniau ym Mhorth y Pwll a Phorth y Post

Adroddwyd: Nad oedd y Cyngor Sir mewn sefyllfa i ddarparu biniau ychwanegol.

Penderfynwyd: Gofyn am gael symud y biniau oedd ddim yn cael eu defnyddio lawer i safleoedd prysurach a hefyd am finiau newydd yn lle'r rhai oedd wedi eu colli neu e'u difrodi.

7.2 Fforwm Cyswilt Cynghorau Tref a Chymuned - Fe fy Cynghorwyr Anwen McCann ac Alan Benson i hwn.

7.3 Lle glas ar Lon Penrallt.

Adroddwyd: Dim ymateb swyddogol gan y Cyngor Sir, fodd bynnag fe fynegwyd pryderon gan y trigolion oedd wedi derbyn llythyr ganddynt yn dweud wrthynt am glirio potiau a phlanhigion oddi ar y lle glas o flaen eu tai.

Penderfynwyd: i aros am ymateb ffurfiol gan CSYM .

8. GOHEBIAETH

8.1 Cyfle posibl i Weithredu Toiledau Cyhoeddus o 1 Ebrill 2017:

Cyflwynwyd: Llythyr gan CSYM yn gofyn a oedd gan y Cyngor Cymdeithas ddiddordeb mewn cymryd drosodd y toiledau ar Draethau Bae Trearddur a Porthdafarch.

Penderfynwyd: I fynegi diddordeb a gofyn am ragor o wybodaeth.

8.2 Cod Ymddygiad newydd:

Dosbarthwyd copi o'r cod newydd i bob Aelod.

Penderfynwyd: i drafod hwn yn y cyfarfod nesaf .

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 31 MAI 2016 AM 7 O'R GLOCH.

8.3 Gwasanaeth Sul Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn : -

Penderfynwyd: Byddai'r cadeirydd yn mynd i hwn.

9. SAFLE HAMDDEN:

Cyflwynwyd: Llythyr dyddiedig 20 Mai 2016 gan CSYM yn hysbysu'r Cyngor Cymdeithas eu bod yn fodlon derbyn taliad o £25,000 dros gyfnod o 10 mlynedd fel ystyriaeth am drosglwyddo'r Safle Hamdden. Hefyd byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymdeithas dalu 50% o'r holl ffioedd cyfreithiol uwchben ffigwr trothwy o £4,000.

Penderfynwyd: ymateb i gadarnhau cytundeb y Cyngor Cymdeithas fel a ganlyn:

- Cytundeb "Heb ragfarn ac amodol ar Gontract " i dalu'r £25,000 dros gyfnod o 10 mlynedd.
- I dalu 50% o'r costau cyfreithiol sydd yn uwch na'r ffigwr trothwy o £4,000 a hynny ar yr amod na fyddai cyfraniad y Cyngor Cymdeithas yn fwy na £4,000.
- Bod y Cyngor Cymdeithas yn derbyn diweddariad rheolaidd er mwyn monitro'r sefyllfa a'r angen am unrhyw wariant pellach.

10. CYFRANIADAU - Dim ceisiadau.

11. ADRODDIADAU'R CYNGHORWYR

11.1 Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas: Dywedodd fod Pennaeth Ysgol Kingsland wedi cael ei benodi fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Cybi. Roedd y problemau traffig dal i o dan drafodaeth a bod materion adnoddau dynol mewn perthynas â throsglwyddo staff o'r tair ysgol angen eu datrys.

11.2 Cyngorydd Susan Conrad Smith: - fe'i penodwyd yn Gadeirydd Cyd Bwyllgor y Fynwent. Cytunwyd cyfrifon 2015/16.

11.3 Cyngorydd Eric Roberts: Adroddodd fod Ysgol Gynradd Rhoscolyn yn parhau i wneud yn dda, roeddent yn disgwyl bod yn llawn ac efallai gydag un neu ddau o blant ychwanegol y flwyddyn nesaf. Roedd penderfyniad wedi'i wneud i werthu'r mini bws a chanŵod gan ei bod yn rhatach i'w llogi.

11.4 Cyngorydd Alan Benson: Dywedodd nad oedd llawer i adrodd yn ôl o gyfarfod y Fforwm Cyswllt Cyngorau Cymuned, 'roedd parcio, sbwriel ac ailgylchu yn parhau i fod yn bynciau llosg gan rai cyngorau ond dim byd i weld yn cael ei ddatrys.

12 CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG

12.1 Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2015/2016

Nodwyd: bod y cyfrif blynyddol hyd at 31 Mawrth 2016 wedi ei anfon at yr Archwilydd Allanol .

12.2 Adroddiad Ariannol Misol:

Cyflwynwyd a nodwyd : Adroddiad am y cyfnod 1/4/2016 i 30/4/2016 ynghyd â

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 31 MAI 2016 AM 7 0'R GLOCH.

chysoniad banc a Chyfrifon Banc.

12.3 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth

Cyflwynwyd a Nodwyd :Llythyr am y gofyniad statudol bod pob Cyngor yn cyhoeddi manylion y lwfansau a threuliau sy'n daladwy i Gynghorwyr erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

12.4 Model Rheoliadau Ariannol newydd:

Cyflwynwyd a Nodwyd: llythyr yn tynnu'r rhain yn ôl.

12.5 Gwaredu Dogfennau a Storio:

Penderfynwyd: Byddai Cyng. Dafydd Rhys Thomas a Cyng. Eric Roberts yn cynorthwyo'r clerwr gyda'r broses o ddiolli ac edrych drwy ddogfennau hanesyddol Cyngor Cymdeithas .

13 TALIADAU

Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

1400	E. M. Owen	Cyflog	£346.98
1401	H.M.R.C	Treth Incwm	£86.75
1402	Holyhead B.C	Fynwent	£1967.75
1403	IOACC	Les Cae Chwarae	£96.17
1404	I. G. Jones	PAYE	£48.00
1405	Ynys Trading	Cynnal Cae Chwarae	£342.31
1406	Zurich	Yswiriant	£1109.89
1407	A Benson	Costia Teithio	£14.72

14 UNRHYW FATER BRYS ARALL

14.1 Un Llais Cymru:

Nodwyd fod y Cynghorydd A. McCann angen cyfrinair.

14.2 Sedd Wag:

Nodwyd: Bod angen trefnu i hysbysebu'r sedd wag.

Penderfynwyd: Y byddai'r clerwr yn gwneud hyn
Prynu cyfrifiadur : I'w gynnwys ar raglen y mis nesaf .

14.3 Prynu Cyfrifiadur: I'w roi ar raglen mis nesaf.

14.4 Llwybrau Cyhoeddus :

Nodwyd: fod y llwybr ger Isallt Fawr angen ei dorri.

Penderfynwyd: y dylai'r clerwr drefnu hyn ac y byddai'r Cynghorydd Geoff McGinn yn edrych ar y gweddill.

14.5 Masnachu ar Ffordd Ravenspoint :

Nodwyd: Fod masnachwr heb drwydded yn gweithredu ar Ffordd Ravenspoint.

Penderfynwyd: Y byddai'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn cael golwg ar hyn.

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR 31 MAI 2016 AM 7 O'R GLOCH.

15 PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

- 15.1 46C562 - 35 Hunter's Chase, Trearddur Bay - wedi ei ganiatau.
- 15.2 46C300D - The Old Cottage, Lon Isallt, Trearddur Bay - Gwrthodwyd.
- 15.3 46C160R - Blackthorn Farm, Lon Isallt, Trearddur Bay - Gwrthodwyd.
- 15.4 46C38X/AD - Sea Shanty, Lon St. Ffraid, Trearddur Bay - Gwrthodwyd.
- 15.5 46C14S/1/MIN - Cliff Holiday Centre, Trearddur Bay - wedi ei ganiatau.
- 15.6 46C397P/DEL - Bryniau, Lon Penrhingarw, Trearddur Bay - wedi ei ganiatau.
- 15.7 46C486C/SCR - Tan y Graig, Trearddur Bay (barn sgrinio) - dim angen AEA.
- 15.8 46C160S/SCR - Blackthorn Farm, Lon Isallt, Trearddur Bay (barn sgrinio) - dim angen AEA
- 15.9 46C242D - Morswyn, Penrallt Road, Trearddur Bay – Gwrthodwyd y Modyrddy a ganiatwyd yr estyniad.

16 CEISIADAU CYNLLUNIO

- 16.1 **46C263V - Parc Carafan Tyn Towyn Caravan Park, Bae Trearddur Bay**
Cais llawn i osod 7 carafán statig.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.2 **46C563 - 24 Ravenspoint Road, Bae Trearddur Bay**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.3 **46C499A - Fron y Graig, Ffordd Ravenspoint Road, Bae Trearddur Bay**
Cais llawn i newid rhan o'r annedd i B&B, addasu ag ehangu sydd yn cynnwys balconi, dymchwel modurdy presennol ynghyd a chodi modurdy newydd yn ei le.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.4 **46C149Q - Trearddur Bay Hotel, Bae Trearddur**
Cais llawn i godi 6 o gytiau traeth ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerddwyr i'r ardd cwrw.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.5 **46C218D - The Old Abbey, Ravenspoint Road, Bae Trearddur Bay**
Cais llawn i newid defnydd anecs i annedd - wedi ei dynnu'n ôl.

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 31 MAI 2016 AM 7 0'R GLOCH.

- 16.6 **46C530B The Old Boat House, Lon Isallt, Bae Trearddur**
Cais llawn i ddymchwel siop bresennol ynghyd a chodi siop newydd
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.7 **46C564 - Sealoft, Penrallt Road, Trearddur Bay**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu sydd yn cynnwys codi balconi
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.8 **46C11F/1/VAR - Anglesey Outdoor Centre, Porthdafarch Road**
Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o ganiatâd cynllunio rhif 46C11D/1 (newid defnydd y tir ar gyfer lleoli 10 carafan teithiol) er mwyn cael tymor gwyliau 12 mis.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
- 16.9 **46C38X/AD - Sea Shanty, Lon St. Ffraid, Trearddur Bay** - Apel yn dilyn gwrthod caniatâd hysbyseb.
17. **CYFARFOD NESAF: 28 Mehefin 2016.**